**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**National Assembly for Wales**
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

12 Rhagfyr 2019

Annwyl Weinidog

**Busnes Pawb: Adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru**

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar atal hunanladdiad yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ymrwymiad i wneud gwaith dilynol ar y cynnydd o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor.

Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaethom ysgrifennu at randdeiliaid i ofyn eu barn ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn, ac am unrhyw dystiolaeth newydd a'r wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth flaenorol. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ym mis Hydref 2019.

Cawsom 14 o ymatebion gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, a chafodd pryderon eu mynegi ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud.

Felly, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y meysydd a ganlyn:

**Cyffredinol**

1. A all Llywodraeth Cymru amlinellu ei dull strategol cyffredinol ar gyfer gweithredu argymhellion y Pwyllgor? A oes 'cynllun prosiect' ac a ellir rhannu hwn â'r Pwyllgor?

**Argymhelliad 1 - Fframwaith hyfforddiant ar atal hunanladdiad**

2. Sut mae'r fframweithiau cymhwysedd ac adnoddau eraill, sydd bellach ar gael drwy'r wefan Siarad â Fi 2, yn cael eu lledaenu/hyrwyddo i wasanaethau ac i'r cyhoedd yn gyffredinol?

3. Sut y bydd y gwaith o weithredu'r fframweithiau hyfforddi yn cael ei fonitro a sut fyddwch yn adrodd ar y gwaith hwn?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

**Argymhelliad 5 - Canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar rannu gwybodaeth/datganiad consensws**

Yn ei hymateb, nododd Llywodraeth Cymru y bydd Cylchlythyr Iechyd Cymru yn cael ei gyhoeddi i sicrhau bod meddygon teulu yn ymwybodol o'r canllawiau.

4. A allwch gadarnhau a yw Cylchlythyr Iechyd Cymru wedi'i lunio ac, os na, beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud hyn?

**Argymhelliad 11 - Targed ar gyfer yr apwyntiad dilynol cyntaf i gleifion mewnol a ryddhawyd o ofal iechyd meddwl**

Roedd y cynllun cyflawni ar gyfer 2016-19, sef 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', yn cynnwys fel mesur perfformiad y dylai pob claf mewnol sy'n cael ei ryddhau gael yr apwyntiad dilynol cyntaf o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei ryddhau. Roedd tystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad yn awgrymu bod tridiau yn darged priodol, er i'r Pwyllgor argymell targed mwy uchelgeisiol o 48 awr.

5. A yw pob bwrdd iechyd bellach yn gweithredu targed o dridiau ar gyfer yr apwyntiad dilynol cyntaf ar ôl i gleifion mewnol gael eu rhyddhau o ofal iechyd meddwl?

**Argymhelliad 12 - Targedau ar gyfer therapïau seicolegol**

Yn ei hymateb, nododd Llywodraeth Cymru y byddai adroddiadau ffurfiol ar ddata perfformiad ynghylch mynediad at therapïau seicolegol arbenigol/gofal eilaidd ar gael o fis Ebrill 2019. Nid yw'r data perfformiad wedi'u cyhoeddi eto. Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig diweddar (18 Tachwedd 2019), gwnaethoch ddweud bod Llywodraeth Cymru bellach wedi dechrau casglu'r data cyn adrodd yn ffurfiol.

6. Pryd fydd data perfformiad ynghylch mynediad at therapïau seicolegol arbenigol/gofal eilaidd yn cael eu cyhoeddi?

I ddechrau, cafodd targed o 26 wythnos ei bennu ar gyfer mynediad at therapïau seicolegol arbenigol, gyda'r bwriad o leihau'r cyfnod hwn yn y dyfodol. Mae rhanddeiliaid wedi cwestiynu'r gwahaniaeth rhwng y targed 28 diwrnod ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol a'r targed 26 wythnos mewn gofal eilaidd.

7. Pryd mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod mewn sefyllfa i leihau'r amser targed ar gyfer mynediad at therapïau seicolegol arbenigol?

**Argymhelliad 13 - Strategaeth ôl-ymyrraeth Cymru gyfan ar gyfer hunanladdiad**

Amlygodd y Pwyllgor hyn fel blaenoriaeth frys. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn a dywedodd y byddai'n adolygu'r llwybr ôl-ymyrraeth sydd ar waith yn Lloegr ar fyrder ac yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i'w addasu i Gymru lle bo angen.

Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig gan Lynne Neagle ar 17 Hydref 2019, gwanethoch ddweud y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol a'r cydgysylltwyr atal hunanladdiad cenedlaethol a rhanbarthol sydd newydd eu penodi i ddatblygu llwybr ôl-ymyrraeth genedlaethol i Gymru, unwaith y byddai canlyniad yr adolygiad o wasanaethau profedigaeth wedi dod i law. Daeth yr adroddiad terfynol ar yr adolygiad o wasanaethau profedigaeth i law swyddogion a'r bwrdd gofal diwedd oes ganol mis Tachwedd (a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2019).

8. A wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i amserlen ar gyfer y llwybr ôl-ymyrraeth Cymru gyfan?

**Argymhelliad 15 - Cyllid ar gyfer grwpiau cymorth**

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at yr adolygiad o wasanaethau profedigaeth y soniwyd amdano uchod. Yn yr ymateb, nodir y byddai'r adolygiad yn mapio'r gefnogaeth bresennol ac yn nodi ardaloedd lle mae angen adnoddau pellach.

9. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ardaloedd y nodwyd bod angen adnoddau pellach arnynt, a pha gyllid fydd ar gael i'w cefnogi.

**Argymhelliad 24 - Gweithredu argymhellion 'Cadernid Meddwl'**

Ar hunanladdiad yn benodol, argymhellodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y dylid bwrw ymlaen â'r argymhelliad yn 'Cadernid Meddwl' ynghylch canllawiau i ysgolion ar siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio (argymhelliad 16 yn 'Cadernid Meddwl') fel blaenoriaeth frys. Cyhoeddwyd canllawiau i ysgolion ym mis Medi 2019. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi galw ar y Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog Addysg i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Croesawyd y canllawiau mewn ymatebion i'n hymgynghoriad dilynol, er yr awgrymwyd y dylid ymdrin yn fwy penodol ag atal hunanladdiad/hunan-niweidio yn y cwricwlwm newydd.

10. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion a ganlyn:

- gweithredu'r canllawiau ar siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio mewn ysgolion;
- a fydd camau ychwanegol yn cael eu cymryd i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn cael canllawiau clir i'w cynorthwyo â'r camau i'w cymryd a sut i gyfathrebu â disgyblion a theuluoedd yn dilyn marwolaeth disgybl drwy hunanladdiad; a
- sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cefnogi gwaith ar atal hunanladdiad mewn ysgolion.

**Argymhelliad 31 - Cyllid ar gyfer atal hunanladdiad**

Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £500,000 ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer atal hunanladdiad. Yn eich llythyr at y Pwyllgor ar 22 Mai 2019, gwnaethoch ddarparu rhywfaint o fanylion ychwanegol am ddefnyddio'r cyllid hwn, gan gynnwys recriwtio un cydgysylltydd atal hunanladdiad cenedlaethol a thri cydgysylltydd rhanbarthol. Er mai ychydig o sylwadau yn unig a gafwyd ar yr arian ychwanegol hwn yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad dilynol, awgrymwyd na fydd yr arian yn cyrraedd llawr gwlad, lle mae'r gweithredu'n digwydd mewn gwirionedd.

11. A oes gan Lywodraeth Cymru syniad clir o'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu strategaeth Siarad â Fi 2 yn llawn ledled Cymru, ac a fydd cyllid penodol ychwanegol ar gyfer atal hunanladdiad yn cael ei neilltuo (er enghraifft, yng nghylch y gyllideb ar gyfer 2012-21)?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn 31 Ionawr 2020.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**